| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Huw Wyn Jones<br>Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid<br>Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Tachwedd 2025** |

## 1. PENDERFYNIAD A GEISIR:

1.1 Mabwysiadau Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i roi arweiniad a ffiniau clir i swyddogion ar y defnydd o eithriadau rhag y Premiwm a'r Dreth Cyngor sylfaenol.

## 2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD:

2.1 Mae Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy ar gyfer unigolion, neu ar gyfer dosbarthiadau o drethdalwyr. Nid yw Adran 13A yn gosod cyfyngiad ar ei ddefnydd felly mae'r gofyn am ddefnydd gofalus a chyson, heb osod cynsail niweidiol, yn hanfodol.

2.2 Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a'r broses ar gyfer dyfarnu gostyngiadau dewisol i Dreth Cyngor yn unol ag Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

2.3 Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd wedi ddefnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno eithriadau lleol, dewisol mewn achosion cyfyng iawn. Er enghraifft, ar 8 Ebrill 2025 penderfynodd y Cabinet ddefnyddio Adran 13A i roi gostyngiad lleol i Ofalwyr Maeth yng Ngwynedd, ac mae prosiect 3e yn y Cynllun Gweithredu Tai yn defnyddio'r grym i roi gostyngiad treth i brynwyr tro cyntaf sy'n atgyweirio eiddo, y tu hwnt i'r eithriad statudol.

2.4 Rhaid i unrhyw gamau i arddel y grym hwn fod yn gyson â deddfwriaeth arall (e.e. Deddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ac Adran 67 Deddf 1992, mater i'r Cabinet yw defnydd Adran 13A, nid yw'n fater sy'n rhaid cael penderfyniad Cyngor llawn. Mae'r pŵer dan Adran 13A (1)(c) yn eang, ac yn caniatáu'r awdurdod bilio ostwng bil Treth Cyngor unrhyw annedd am unrhyw gyfnod ag y mae'r awdurdod bilio yn ei weld yn addas.

2.5 Mae copi o'r Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'w gael yn Atodiad 1. Mae'n ymarfer da i gael Polisi o'r fath er mwyn sicrhau tryloywder a chysondeb, gyda chanllawiau clir i swyddogion ond ar yr un pryd yn egluro'r camau sydd angen eu cymryd i ymdrin ag achosion sydd yn wirioneddol eithriadol.

## 3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 Mae Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy ar gyfer unigolion, neu ar gyfer dosbarthiadau o drethdalwyr, mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i leihau'r swm sy'n daladwy i ddim.

3.2 Mae hwn ar wahân ac yn wahanol i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, sydd wedi cymryd lle Budd-dal Treth Cyngor ers 2013. Mae'r Cyngor llawn yn penderfynu ar Gynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn flynyddol, fel arfer yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, ac yn unol â statud cyn 31 Ionawr.

3.3 Tra fod y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn bodoli i roi cymorth i'r rhai sy'n atebol i dalu'r dreth, mae angen rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer y trigolion hynny sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau 'eithriadol' ac sydd angen cymorth tymor byr i fodloni eu rhwymedigaeth Treth Gyngor.

3.4 Mae'n bwysig diffinio'r hyn y gellid ei ystyried yn eithriadol ac yn yr achos hwn byddai'n sefyllfa nad oedd yn nodweddiadol, yn hollol anarferol a dim ond yn debygol o ddigwydd yn anaml iawn. Rhagwelir bod sefyllfaoedd eithriadol at ddibenion y cynllun hwn yn debygol o fod yn bethau y tu allan i reolaeth y trethdalwr, megis llifogydd i eiddo fel enghraifft.

3.5 Rhaid i Cyngor Gwynedd dalu cost lawn dyfarnu unrhyw ostyngiadau Adran 13A. Rhaid i'r Cyngor felly gydbwyso angen y talwyr cyngor unigol sydd angen cymorth yn erbyn buddiannau talwyr y dreth gyngor yn gyffredinol.

3.6 Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi un dosbarth neu fwy o anheddau na chaiff cynghorau benderfynu cymhwyso premiwm iddynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 wedi'u gwneud o dan y pwerau hyn ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n dod o dan eithriad.

3.7 Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau esempt. Mae dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4 yn gymwys i eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae dosbarthiadau 5, 6 a 7 yn gymwys i ail gartrefi yn unig.

3.8 Gweler manylion yr eithriadau hyn yn y canllaw statudol canlynol:

https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html

## 4. YSTYRIAETHAU ERAILL

4.1 Wrth lunio'r Polisi arfaethedig (yn Atodiad 1) rhoddwyd ystyriaeth i achosion sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Adran Gyllid dros nifer o flynyddoedd. Gallai rhain fod yn geisiadau am ostyngiad mewn Treth Cyngor sylfaenol, y Premiwm, neu'r ddau.

4.2 Gan fod eithrio o'r Dreth sylfaenol gan ddefnyddio Adran 13A yn gost uniongyrchol ar goffrau'r Cyngor rhaid arddel y grym yn ofalus iawn, tra ar yr un pryd osgoi gosod cynsail a allai niweidio'r Cyngor yn ariannol yn y tymor hir.

4.3 Ar yr un pryd, rhaid sicrhau tegwch a chysondeb wrth ddefnyddio'r grym yma. Mae copi o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb i'w gael yn Atodiad 2.

4.4 Mae'r Adran Gyllid hefyd yn ymwybodol fod ymgynghoriadau ar y gweill neu wedi cau yn ddiweddar er mwyn addasu rhai o'r eithriadau statudol. Byddwn yn cadw'r Polisi o dan adolygiad parhaus ac yn ei addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol gael eu cyflwyno. Un enghraifft amlwg o hyn yng Ngwynedd yw heriau gan berchenogion ail-gartrefi a ddefnyddir i ddibenion llety hunan arlwy, ac yn methu a chyfarch y trothwy 182 diwrnod i fod yr y rhestr ardrethi annomestig. Mae hwn yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd a allai arwain at newid yn y rheoliadau.

4.5 Mae cefnogi Mentrau Cymunedol yn flaenoriaeth i'r Cyngor a felly mae'r Polisi yn cefnogi eithriadau treth i'r mentrau hyn. Serch hynny, asesir fod risg y gellir sefydlu Mentrau Cymunedol ffug er mwyn manteisio ar unrhyw ryddhad treth felly cynigir fod Panel yn ystyried unrhyw gan Fenter Gymunedol ar ei rinwedd ei hun er mwyn sicrhau ei fod wedi ei sefydlu'n ddiffuant er mwyn cefnogi'r gymuned. Nid oes cynnig, felly, fod Menter Gymunedol yn destun unrhyw eithriadau heb asesiad fanwl o'r achos unigol yn gyntaf.

## 5. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

5.1 Mae'r nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a'r effaith ar ddefnydd y Gymraeg wedi'u hystyried wrth baratoi'r adroddiad hwn. Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, rhaid i'r Cyngor ystyried effaith penderfyniadau strategol, megis datblygu neu adolygu polisïau, strategaethau, gwasanaethau a swyddogaethau. Ystyrir na fydd unrhyw effeithiau cydraddoldeb sylweddol neu annerbyniol yn deillio o'r adroddiad hwn.

5.2 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

## 6. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

6.1 Nod gwreiddiol y Polisi Lleihau ydi i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

6.2 Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

6.3 Ystyriwyd y nodau llesiant a nodwyd yn y Ddeddf wrth baratoi'r adroddiad hwn. Ystyrir na fydd unrhyw effeithiau sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni nodau/amcanion llesiant o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. CAMAU NESAF

7.1 Mabwysiadau'r Polisi i fod yn weithredol ar gyfer gweddill 2025-26 a hyd nes y bydd yn cael ei adolygu neu ei ddiddymu.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Mae Canllawiau y Llywodraeth "**Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi"** yn darparu arweiniad ar ddefnydd disgresiwn statudol ynglŷn a'r premiwm. Mae cael Polisi yn caniatáu i'r Cabinet sefydlu datganiad ynglŷn a sut yr ymdrinnir a cheisiadau am eithrio unai o'r Dreth Cyngor a / neu Premiwm. Fe nodir hefyd fod adolygiadau or' rheoliadau eithriadau hefyd ar y gweill a thanlinellir bwriad i gadw y Polisi dan adolygiad. Mae'r argymhelliad yn darparu fframwaith ar gyfer cyfarch ceisiadau.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.